# Asesiad Effaith Categoreiddio Datganiad o Resymau

## 1. Cefndir

1.1 Mae adran 95 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ('y Ddeddf') yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, gwasanaeth chwilio a gwasanaeth cyfunol rheoleiddiedig yr ydym yn ystyried eu bod yn debygol o fodloni amodau trothwy Categori 1, 2A neu 2B (fel y bo'n berthnasol) a nodir yn Neddf Diogelwch Ar-lein 2023 (Amodau Trothwy Categori 1, Categori 2A a Chategori 2B) Rheoliadau 2025 ('y Rheoliadau').[1] Yna mae'n rhaid i ni ychwanegu cofnodion sy'n ymwneud ag unrhyw wasanaeth sy'n bodloni'r amodau trothwy i'r rhan berthnasol o'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio ('y gofrestr'). Yn ogystal, rhaid ychwanegu gwasanaethau sy'n bodloni'r amodau yn adran 97 o'r Ddeddf at restr o wasanaethau Categori 1 sy'n dod i'r amlwg ('y rhestr'). Mae Ofcom wrthi'n cynnal asesiadau o'r fath o dan adran 95 o'r Ddeddf.

1.2 Yn achos penderfyniadau arfaethedig Ofcom i roi gwasanaeth ar y gofrestr, nid ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol i ni gynnal asesiad o effaith debygol gweithredu ein penderfyniadau arfaethedig (gan gynnwys cymhwyso'r dyletswyddau ychwanegol, lle bo'n berthnasol) o dan Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003'). Mae'r ddogfen hon yn ddatganiad at ddibenion adran 7(3)(b) o Ddeddf 2003 sy'n nodi ein rhesymau dros feddwl nad oes angen cynnal asesiad, sy'n cael ei gyhoeddi cyn gwneud unrhyw benderfyniad arfaethedig.

1.3 Mewn perthynas â'n darpar benderfyniadau ar y rhestr, gan nad oes unrhyw rwymedigaethau ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaeth y gosodir eu gwasanaethau ar y rhestr hon, nid yw'n ymddangos i ni fod ein penderfyniad yn ymwneud â chynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol pe bai'n cael ei weithredu gan bobl sy'n cynnal busnesau mewn marchnadoedd perthnasol neu ar y cyhoedd yn gyffredinol yn y DU fel bod angen asesiad o dan adran 7.

## 2. Rhesymeg

2.1 Mae ein penderfyniadau ar gategoreiddio yn cael eu cyfyngu a'n deillio gan ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ymyrryd mewn ffordd benodol. Mae adran 95 o'r Ddeddf yn nodi rhwymedigaethau Ofcom mewn perthynas â sefydlu'r gofrestr. Mae'r Rheoliadau yn nodi'r trothwyon y caiff gwasanaethau eu hasesu yn eu herbyn ac mae'r Ddeddf a'r Rheoliadau yn pennu'r broses a ddefnyddir i asesu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau. I'r graddau y mae unrhyw benderfyniad categoreiddio yn ei gwneud yn ofynnol i ni arfer disgresiwn dehongli, yn enwedig oherwydd amwysedd yn narpariaethau cwmpas y Ddeddf, byddwn yn ceisio sefydlu ystyr gwrthrychol darpariaeth a rhoi effaith i fwriad y Senedd. Wrth wneud pob un o'r darpar benderfyniadau unigol ar gyfer y gofrestr, byddwn felly'n dilyn y cyfarwyddiadau a ddarperir yn y ddeddfwriaeth, gan wneud pob penderfyniad yn unol â'r meini prawf a osodir yn y Rheoliadau a'r Ddeddf.

[1] Rheoliadau Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (Amodau Trothwy Categori 1, Categori 2A a Chategori 2B) 2025.

2.2 Wrth wneud ein penderfyniadau, byddwn hefyd yn gweithredu polisi neu broses y mae asesiad effaith eisoes wedi'i gynnal arno. Wrth osod yr amodau trothwy yn y Rheoliadau, ystyriodd y Llywodraeth effaith ei pholisi. Ystyriodd yr asesiad effaith hwnnw a'r effaith bosibl y Rheoliadau, gan gynnwys y costau a'r manteision.[2] Gwnaeth hefyd ystyried sut effeithiodd y Rheoliadau ar yr asesiad effaith gwreiddiol a gynhaliwyd i ddeall ac egluro effaith bosibl y Ddeddf yn ei chyfanrwydd.[3] Seliwyd yr asesiad effaith a gynhaliwyd gan y Llywodraeth wrth ddylunio'r Rheoliadau yn rhannol ar amcangyfrifon o nifer y gwasanaethau sy'n debygol o gael eu rhoi ar y gofrestr o ganlyniad i'r amodau trothwy. Mae nifer y gwasanaethau yr ydym wedi'u hasesu dros dro i fodloni'r amodau trothwy ar hyn o bryd yn dod o fewn yr ystod a ddefnyddiwyd fel amcangyfrif gan y Llywodraeth yn eu hasesiad effaith.[4]

2.3 Yn hyn o beth, rydym o'r farn bod ein dull o asesu effaith ar gyfer ein penderfyniadau arfaethedig yn gyson â chanllawiau asesu effaith Ofcom a'n dyletswyddau o dan adran 7 o Ddeddf 2003.[5]

## Gwasanaethau wedi'u hychwanegu at y gofrestr

2.4 Cydnabyddwn y bydd effeithiau'n gysylltiedig â gweithredu'r dyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i wasanaethau o ganlyniad i'n penderfyniad i roi gwasanaeth ar y gofrestr. Yn y cyd-destun hwnnw, mae cynigion Ofcom ar ein dull o ymdrin â'r dyletswyddau ychwanegol hynny yn bwysig at ddibenion adran 7 o Ddeddf 2003. Felly, mae Ofcom wedi cynnal, a bydd yn parhau i gynnal, asesiadau effaith ar gyfer ein dull o ymdrin â'r dyletswyddau ychwanegol, gan gynnwys ein cynigion sy'n ymwneud ag unrhyw godau ymarfer a chanllawiau a gynhyrchwn i gefnogi gwasanaethau wedi'u categoreiddio i gydymffurfio â'r dyletswyddau ychwanegol hyn. Yn benodol:

- Mewn perthynas â'r dyletswyddau adrodd ar dryloywder, ymgynghorom ar ac yna cyhoeddom fersiynau terfynol o'n hasesiadau effaith ar gyfer canllawiau tryloywder Ofcom yn 2025.[6] Rydym hefyd yn bwriadu ymgynghori ar ein hasesiad effaith ar gyfer ein hysbysiadau tryloywder arfaethedig.
- Mewn perthynas â dyletswyddau o ran defnyddwyr sy'n blant a fu farw, ymgynghorom ar ein hasesiad effaith o'n canllawiau arfaethedig i gynorthwyo darparwyr i ddeall a chydymffurfio â'r dyletswyddau hyn rhwng Rhagfyr 2025 a Mawrth 2026.[7]
- Mewn perthynas â'r dyletswyddau asesu risg uwch, rydym wedi ymgynghori o'r blaen ar effaith ein Canllawiau Cynnwys Anghyfreithlon ac Asesu Risg Plant, sy'n ailadrodd, o dan Gam 4, ofynion y dyletswyddau hyn yng nghyd-destun y canllawiau yn ehangach. Gan nad ydym wedi gosod unrhyw ofynion sylweddol y tu hwnt i'r rhai yn y Ddeddf, mae effaith y dyletswyddau asesu risg uwch felly'n deillio'n bennaf o'r Ddeddf.

[2] Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, 2024. Asesiad Effaith ar gyfer Rheoliadau Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (Amodau Trothwy Categori 1, Categori 2A a Chategori 2B) 2025.
[3] Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, 2024. Deddf Diogelwch Ar-lein: Asesiad o effaith deddfu.
[4] Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, 2024. Asesu Effaith ar gyfer Rheoliadau Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (Amodau Trothwy Categori 1, Categori 2A a Chategori 2B) 2025, t 7.
[5] Ofcom, 2023, Canllawiau Asesu Effaith, t 8-9, paragraff 3.5.
[6] Ofcom, 2025, Atodiad A1 - Datganiad: Adroddiadau Tryloywder.
[7] Ofcom, 2025. A2. Asesiadau Effaith, Ymgynghoriad: Canllawiau - Dyletswyddau o ran Defnyddwyr sy'n Blant a fu farw.

- Mewn perthynas â'r dyletswyddau hysbysebu twyllodrus, rydym yn ymgynghori ar ein hasesiad effaith o'n dull o ymdrin â’r dyletswyddau hynny yn ein hymgynghoriad ar y codau hysbysebu twyllodrus, a fydd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r gofrestr ym mis Gorffennaf 2026, o fewn wythnosau i gyhoeddi'r datganiad hwn.
- Mewn perthynas â'r dyletswyddau ychwanegol sy'n weddill sy'n berthnasol i **wasanaethau Categori 1** (gan gynnwys, ymhlith eraill, dyletswyddau sy'n ymwneud â grymuso defnyddwyr, gwirio hunaniaeth defnyddiwr, a chynnwys newyddiadurol/cynnwys o bwysigrwydd democrataidd), rydym yn ymgynghori ar ein hasesiad effaith ar gyfer ein dull ymdrin â'r dyletswyddau hyn yn ein hymgynghoriad dyletswyddau ychwanegol. Cyhoeddir hyn ochr yn ochr â'r gofrestr ym mis Gorffennaf 2026, o fewn wythnosau i gyhoeddi'r datganiad hwn.

2.5 Rydym yn annog pob rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau wedi'u categoreiddio, i ymgysylltu â'n hymgynghoriadau sydd ar ddod ar y dyletswyddau ychwanegol i'r graddau y maent yn berthnasol i'r categori gwasanaeth, os ydynt yn dymuno deall neu wneud sylwadau ar effaith bosibl y polisïau drafft hynny.

## Casgliad

2.6 Am y rhesymau a amlinellir uchod, nid ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol cynnal asesiad o effaith debygol ein penderfyniadau i ychwanegu gwasanaethau at y gofrestr o dan Adran 7 o Ddeddf 2003.